

Logo Freedom Food (Bwyd Rhyddid)

Cynllun gwarant fferm a labelu bwyd yr RSPCA yw Freedom Food, a'i nod yw gwella bywydau anifeiliaid fferm.

Mae'r cynllun yn golygu y gall defnyddwyr ddewis cynhyrchion sydd wedi dod oddi wrth anifeiliaid sydd wedi eu harolygu fel bod ganddynt safonau lles uwch. Bydd asesydd Freedom Food sydd wedi ei hyfforddi yn ymweld â'r ffermydd bob blwyddyn ac yn cynnal archwiliad trylwyr. Bydd swyddogion da byw yr RSPCA yn archwilio rhai aelodau bob blwyddyn hefyd ar sail risg.

